BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6

Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6

Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adran 6

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (sef dyletswydd adran 6 neu a6). I gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gweithgareddau, polisïau, cynlluniau, rhaglenni a'u prosiectau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn cyflwyno gofyniad newydd o ran cynllunio ac adrodd hefyd. Drwy hynny, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus nad yw'n un o Weinidogion y Goron neu'n adran y llywodraeth i baratoi a chyhoeddi cynllun. Yn ogystal, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus baratoi a chyhoeddi adroddiad am yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sefyllfa British Council Cymru ar gyfer 2019 - 2022.

Y British Council

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y DU ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn meithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y DU a gwledydd eraill drwy'r celfyddydau a diwylliant, addysg a'r iaith Saesneg. Yn 2019-2020 cyrhaeddom dros 75 miliwn o bobl yn uniongyrchol a 758 miliwn o bobl yn gyffredinol gan gynnwys ar-lein, darllediadau a chyhoeddiadau. Sefydlwyd y British Council yn 1934, ac rydym yn elusen yn y DU sy'n cael ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol a chorff cyhoeddus yn y DU. Rydym yn derbyn grant cyllid craidd o 14.5 y cant gan lywodraeth y DU. www.britishcouncil.org

British Council Cymru

Yn British Council Cymru, rydym yn hyrwyddo'r gorau o ddiwylliant ac addysg Cymru yn rhyngwladol drwy ein rhaglenni ym maes addysg a'r celfyddydau . Rydym yn helpu myfyrwyr, athrawon, artistiaid ac eraill o Gymru i gysylltu â chymheiriaid ledled y byd. Mewn byd wedi

globaleiddio, credwn fod yn rhaid i Gymru fod yn genedl sy'n edrych tuag allan, gan mai'r gwledydd mwyaf llwyddiannus - yn ddiwylliannol ac yn economaidd - yw'r rheini sy'n croesawu ethos o rannu profiadau ac arbenigedd yn agored. wales.britishcouncil.org

Swyddfa British Council Cymru

Agorodd y British Council ei swyddfa gyntaf yng Nghymru yn 1944. Ers 2008 mae swyddfa British Council Cymru wedi'i lleoli ar draws llawr cyfan yr ail lawr mewn bloc o swyddfeydd yn 1 Ffordd y Brenin yng Nghaerdydd. Ers mis Mawrth 2020, oherwydd pandemig Covid-19 mae'r swyddfa wedi bod ar gau ac mae'r staff wedi bod yn gweithio gartref.

Ni fydd ein staff yng Nghaerdydd yn dychwelyd i weithio yn y swyddfa'n llawn amser gan y byddant yn parhau i weithio gartref yn bennaf yn y dyfodol. Rydym yn ail-gynllunio ein swyddfa i fod yn fan cyfarfod hyblyg a fydd ond yn defnyddio hanner y llawr presennol pan gaiff ei hailagor.

Ein cyflenwr ynni swyddfa yw Smartest Energy, sy'n darparu Ynni Adnewyddadwy 100%.

Datganiad Polisi Amgylchedd Byd-eang y British Council

Mae'n ofynnol i holl swyddfeydd y British Council ddilyn Datganiad Polisi Amgylchedd Byd-eang y sefydliad:

Mae ein gweithgareddau'n cael effaith ar yr amgylchedd ac rydym wedi ymrwymo i reoli a lleihau'r effaith honno.

Rydym yn cadw llygad ar reolaeth ein heiddo yn ôl y gweithdrefnau, amcanion a thargedau a ddatblygwyd gennym i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Rydym yn defnyddio ein Systemau Rheoli Amgylcheddol i feincnodi perfformiad ein hystâd.

Mae'r British Council wedi ymrwymo i:

- adolygu, deall a rheoli holl ystod effeithiau amgylcheddol ein gweithgareddau

- sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol y Deyrnas Unedig a deddfwriaeth amgylcheddol ryngwladol berthnasol
- gwella perfformiad amgylcheddol ein heiddo yn fyd-eang, gan leihau defnydd ynni, defnydd dŵr a gwastraff
- rhoi gwybod i randdeiliaid mewnol ac allanol am ein cynnydd o ran lleihau ein heffaith amgylcheddol
- ystyried ffactorau amgylcheddol a chynaliadwyedd wrth gaffael
- monitro a lleihau effaith amgylcheddol ein teithiau busnes ac archwilio ffyrdd newydd o gyflawni ein gwaith yn gynaliadwy.

Byddwn yn darparu adnoddau digonol a phriodol i weithredu'r datganiad polisi byd-eang hwn a byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu mewn modd sy'n ddealladwy.

Bydd y British Council yn adolygu'r datganiad polisi byd-eang hwn yn flynyddol i adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol newydd ac i hyrwyddo arferion da.

Cafodd y datganiad polisi byd-eang ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2021 gan Kate Ewart-Biggs OBE, Prif Weithredwr Dros Dro; a disgwylir iddo gael ei adolygu ym mis Mawrth 2022.

Strategaeth Amgylcheddol

Ym mis Ebrill 2021 lansiodd y British Council ei Strategaeth Amgylcheddol. Ein Hamcan Strategol yw darparu dull integredig o ymdrin ag effaith amgylcheddol y British Council o ran ein dulliau rhaglenni a'n dulliau gweithredu, hybu'r gwaith o wireddu uchelgais amgylcheddol y sefydliad a chydbwyso hynny gydag amcanion masnachol ac elusennol, a chael mwy o ddylanwad ar gysylltiadau diwylliannol ledled y byd.

Yn y Deyrnas Unedig

Yn 2021, arwyddom ddogfen Ymrwymiadau Llywodraeth i fod yn fwy Gwyrdd, sy'n nodi targedau a'r camau gweithredu y bydd adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig a'u hasiantaethau yn eu cymryd i leihau eu heffaith amgylcheddol. Dechreuom adrodd o fis Ebrill 2021 a byddwn yn adrodd yn chwarterol.

Yn fyd-eang

Mae llinyn Rhaglenni ein gweithgarwch yn canolbwyntio ar sut y byddwn yn ymgorffori'r amgylchedd fel thema cynnwys allweddol yn ein gwaith o ran cysylltiadau diwylliannol - fel yr ydym yn ei wneud yn barod drwy The Climate Connection, ein rhaglen fyd-eang o gylch COP26 (Cynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig).

O ran llinyn ein Gweithrediadau, mae gyda ni set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ystyriaethau amgylcheddol yn ogystal â thargedau i hybu newid. Maent wedi cael eu grwpio yn 5 maes ffocws: allyriadau carbon; teithio gwyrdd; ailgylchu a gwastraff; deunyddiau a chyflenwyr; a dŵr. Mae adrannau, rhanbarthau a gwledydd yn pennu **camau pendant** y gallant eu cymryd i'n galluogi i gyrraedd ein targedau ar gyfer 2025.

Gweler Atodiad 1 ar gyfer targedau Cymru.

	Dangosydd Perfformiad y British Council	**Llinell Sylfaen 17/18**	**Targed 2025**
Allyriadau carbon	Lleihau cyfanswm ein hôl troed carbon 30%	32,744 tCO2e	**22,920 tCO2e**
Teithio gwyrdd	Lleihau ôl troed carbon teithio pob person o flwyddyn i flwyddyn Lleihau'r pellter a deithïr mewn awyrennau yn flynyddol 50%	1.45 tCO2e 126km	**>0.75 tCO2e** **63m Km**
Ailgylchu a gwastraff	Lleihau'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir 20% Cynyddu'r swm a ailgylchir - o leiaf 70% o'r gwastraff cyffredinol	1,317 tunnell	**1,053 tunnell** **I'w gadarnhau**

	Lleihau nifer y safleoedd sy'n defnyddio plastigau untro i 0%	100%	**0%**
Deunyddiau a chyflenwyr	Lleihau caffael gan gyflenwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi caffael amgylcheddol cynaliadwy o flwyddyn i flwyddyn		**I'w gadarnhau**
Dŵr	Lleihau'r defnydd o ddŵr yfed 8%	593,000 o fetrau ciwbig	**545,000 o fetrau ciwbig**

Cefnogi newid

Mae ein Fframwaith Amgylchedd yn cynnwys rhwydwaith o aelodau staff sy'n effro i'n nodau amgylcheddol. Wrth rannu eu harbenigedd a'u profiad o'u heriau lleol eu hunain maent yn rhoi cymorth i ranbarthau a gwledydd ddeall ein nodau a gweithredu arnynt. Maent yn darparu gwybodaeth am ein cynnydd, gan sicrhau bod ein targedau yn rhan greiddiol o'n penderfyniadau busnes bob dydd. Rydym yn dilyn trywydd ein cynnydd drwy gyflwyniadau chwarterol o ddata perfformiad amgylcheddol – sy'n cael ei rannu'n fewnol a'i gyflwyno i randdeiliaid allanol. Cyn hir, byddwn yn cyflwyno system feddalwedd rheoli amgylcheddol newydd i ddangos cynnydd ein perfformiad yn fwy amlwg.

Ymgorffori newid

Law yn llaw â'r Fframwaith Amgylchedd, mae ein rhwydwaith fyd-eang o Hyrwyddwyr Gwyrdd yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant ein Strategaeth Amgylcheddol wrth gefnogi ac eirioli dros y strategaeth a gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i'n helpu i gyrraedd ein targedau amgylcheddol.

Newid ein ffyrdd o weithio yng Nghymru

Ein gwaith ym maes Addysg yng Nghymru

Yn unol â datganiad Polisi Amgylchedd Byd-eang y British Council, rydym wedi bod yn lleihau faint o deithio a wneir gan ein tîm. Yn ystod y pandemig mae ein gwaith wedi symud ar-lein, gan gynnwys cyfarfodydd ar-lein, cynadleddau digidol a chydweithio.

Er enghraifft, ers mis Mawrth 2020 mae'r digwyddiadau o bwys canlynol ym maes addysg wedi cael eu cyflwyno ar-lein, gan leihau'r angen i deithio ledled Cymru:

- Lansio Tueddiadau leithoedd yng Nghymru 2020
- Seminar Sgiliau Addysg Bellach
- Gweminarau'r Rhaglen Addysg Rhyngwladol
- Cynadleddau addysgu a dysgu leithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion – cyn hyn byddem wedi teithio o amgylch Cymru i gyflwyno'r digwyddiadau hyn.

Yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y byddwn yn symud at fodel a fydd yn cyfuno gwaith ar-lein gyda rhywfaint o waith wyneb yn wyneb lle bo hynny'n angenrheidiol.

Ein gwaith gyda sector diwylliannol Cymru

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn lleihau faint o deithio a wnawn, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Bydd rhai arddangosfeydd celfyddydol rhyngwladol wyneb yn wyneb yn dal i gael eu cynnal, ond rydym yn gweithio i sicrhau fod pob digwyddiad o'r fath mor gynhyrchiol â phosibl, yn ogystal â sicrhau ym mhob achos fod rheswm strategol dros deithio i ddigwyddiad.

Mae ein rhaglen Mynd yn Ddigidol yn ariannu cydweithio digidol rhwng artistiaid a sefydliadau celf yng Nghymru a gwledydd Affrica Is-Sahara. Fel rhan o'r prosiect, rydym wedi cynhyrchu adroddiad yn edrych ar y broses o gydweithio'n ddigidol.

Ers mis Mawrth 2020 rydym wedi cyflwyno digwyddiadau diwylliannol mawr yn ddigidol, gan leihau'r galw i deithio ledled Cymru ac yn rhyngwladol:

- Seminar Llenyddiaeth y British Council, a fyddai fel arfer wedi digwydd fel rhan o ŵyl lenyddiaeth Literaturhaus Stuttgart yn yr Almaen. Cafodd y rhaglen o ddigwyddiadau, 'Ni yw Cymru: lleisiau, tirweddau a straeon gwahanol', eu cynnal ar-lein
- Dau ddigwyddiad diplomyddiaeth chwaraeon
- Cysylltiadau Celtaidd – gŵyl bythefnos
- Rhaglen hyfforddi athrawon Cerdd Iaith

Crynodeb a chynllun

- Mae British Council Cymru'n gweithio'n unol â Datganiad Polisi Amgylchedd Byd-eang y British Council fel y nodir uchod.
- Bydd symud i swyddfa lai, gyda staff yn gweithio gartref yn lleihau ein hôl troed corfforaethol byd-eang. Wrth gwrs, mae hynny'n golygu y bydd cyfran o'n hôl-troed yn deillio o weithgarwch ein staff yn eu cartrefi neu mewn gweithleoedd eraill sy'n perthyn iddynt. Byddwn yn ystyried ffyrdd o barhau i annog ein staff i fod yn ystyriol o'r amgylchedd, ond heb darfu ar eu lleoedd preifat.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau digidol o gydweithio i leihau'r galw i deithio yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.
- Byddwn yn parhau i annog aelodau'r sector diwylliannol yng Nghymru i gyfyngu teithio'n rhyngwladol i arddangos, gan sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw ddigwyddiadau tramor wyneb yn wyneb a fynychir.

Atodiad 1

Perfformiad Amgylcheddol - Cymru						
		Uned	**Llinell Sylfaen 2017/18**	**Gwirioneddol 2020/21**	**Ch1 2021/22**	**Targed 2025**
Allyriadau carbon	Lleihau cyfanswm ein hôl troed carbon 56%	tCO2e	64.49	56.37	13.16	28.38
	Adeiladau	tCO2e			13.16	
	Teithio	tCO2e			-	
Teithio gwyrdd	Lleihau ôl troed carbon teithio bob person o flwyddyn i flwyddyn	tCO2e	2.47	0.09	-	1.24
	Lleihau'r pellter a deithir yn flynyddol mewn awyrennau 50%	km	2,232,331	105,741	-	1,116,165
Ailgylchu a gwastraff	Lleihau'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir 20%	Tunnell	0.56	-	-	0.45
	Cynyddu'r swm a ailgylchir i 70% (o leiaf) o'r gwastraff cyffredinol	Tunnell	0.39	-	-	0.32
	Lleihau nifer y safleoedd sy'n defnyddio plastigau untro i 0%	%	100%			0%
Deunyddiau a chyflenwyr	Lleihau caffael gan gyflenwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi caffael amgylcheddol cynaliadwy o flwyddyn i flwyddyn					
Dŵr	Lleihau'r defnydd o ddŵr yfed 8%	metrau ciwbig	707	357	80	650


Allyriadau carbon - adeiladau a phob taith
70.00
60.00
50.00
40.00
30.00
20.00
10.00
-
tCO2e
Llinell Sylfaen 2017/18
Gwirioneddol 2020/21
Chwarter 1 2021/22
Targed 2025


Teithio gwyrdd - pellter a deithir yn flynyddol mewn awyrennau
2,500,000
2,000,000
1,500,000
1,000,000
500,000
-
cilometrau
Llinell Sylfaen 2017/18
Gwirioneddol 2020/21
Chwarter 1 2021/22
Targed 2025


Defnydd dŵr
800
700
600
500
400
300
200
100
-
metrau ciwbig
Llinell Sylfaen 2017/18
Gwirioneddol 2020/21
Chwarter 1 2021/22
Targed 2025

British Council Cymru Medi 2021